

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD



PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

ADRODDIAD AR DDIWYGIADAU'R COMISIYNYDD I'R CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD AR GYFER GOGLEDD CYMRU

Cefndir

Gwnaed yr adroddiad hwn yn unol â dyletswydd statudol Panel yr Heddlu a Throsedd a gynhwysir yn Adrannau 28(3)(a) a (b) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf).

Adolygiad o'r Cynllun Heddlu a Throsedd drafft ar gyfer Gogledd Cymru

Yn dilyn etholiad Mr. Andy Dunbobbin fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ar gyfer Gogledd Cymru, lluniwyd Cynllun Heddlu a Throsedd newydd yn seiliedig ar y weledigaeth yn manifesto Mr. Dunbobbin.

Ystyriodd y Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'r Cynllun Heddlu a Throsedd yn ei gyfarfod ar 20 Medi, 2021, a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Bodlondeb, Conwy.

Gweledigaeth Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru oedd bod cymunedau Gogledd Cymru'n ddiogel, bod dioddefwyr a phobl ddiamddiffyn yn teimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi, bod cyfraddau trosedd ac aildroseddu'n isel, a bod gan bobl hyder yn y system blismona a chyfiawnder troseddol. O ganlyniad, ac er mwyn cefnogi'r weledigaeth, roedd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cynnig y blaenoriaethau canlynol:

- Darparu cymdogaethau mwy diogel
 - Mynd i'r afael â, ac atal trosedd cefn gwlad a bywyd gwyllt
 - Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd swyddogion a staff yr heddlu
 - Gwella diogelwch ffyrdd
- Cefnogi dioddefwyr a chymunedau
 - Mynd i'r afael â, ac atal cam-drin domestig a thrais rhywiol
 - Diogelu pobl ddiamddiffyn, gan gynnwys plant
 - Mynd i'r afael â, ac atal seiberdroseddu
 - Sefydlu panel dioddefwyr
 - Mynd i'r afael â, ac atal Trosedd Casineb

- System Cyfiawnder Troseddol deg ac effeithiol
 - Cyflwyno Strategaeth Troseddwyr Benywaidd Gogledd Cymru
 - Cynyddu defnydd Cyfiawnder Adferol
 - Cefnogi a diogelu plant a phobl ifanc, a'u gwyro oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol
 - Cyfeirio at achosion troseddu a chefnogi adsefydlu pobl sydd wedi troseddu

Tra bo Cynllun yr Heddlu a Throsedd yn nodi cwestiynau perfformiad allweddol lefel uchel, byddai'r rhain yn cael eu hategu gan Fframwaith perfformiad, a fyddai'n cael ei ddefnyddio i fesur llwyddiant a chynnydd yn erbyn y canlyniadau, a'u hadrodd yn ôl i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Cydnabu Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru'r weledigaeth a'r blaenoriaethau o fewn Cynllun Heddlu a Throsedd y Comisiynydd, sef creigwely'r Cynllun a'r sail ar gyfer darparu'r holl flaenoriaethau eraill.

ARGYMHELLION:

Bod y Cynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn cael ei gymeradwyo yn unol ag Adran 28(3)(b) y Ddeddf.

24 Medi 2021